

## Ffocws y Pwnc

Hanes lleol, ymchwiliad hanesyddol, llythrennedd a thrin data

## Crynodeb

Mae gweithgareddau'r pwnc hwn yn galluogi i blant archwilio safle claddu fel cyswllt â'r gorffennol. Bydd y plant yn ymchwilio i'r cerrig beddau, y cofadeiladau a'r cofgolofnau. Byddant yn datgelu'r straeon am y bobl sydd wedi'u claddu yno ac yn dod i ddeall mwy am bwy fu'n byw o'u blaen yn eu cymuned, a sut roeddent yn byw. Mae'r cerrig beddau'n coffau bywydau a bydd y disgyblion yn eu defnyddio fel prif ffynhonnell o dystiolaeth hanesyddol a hefyd fel ffynhonnell o wybodaeth ar gyfer casglu data.

Dyma'r gweithgareddau: Ditectif Data, Ar Gof a Chadw, Oes Dda, Cewri Lleol.

## CSBC, CA1 a CA2

### Sgiliau Allweddol

Ymchwilio  
Cydymdeimlo  
Canfod  
Arsylwi  
Llunio Casgliadau

### Geiriau Allweddol

Tystiolaeth

## Cysylltiadau Cwricwlwm

Mae gweithgareddau'r pwnc hwn yn helpu i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y disgyblion mewn Hanes, Llythrennedd, Mathemateg a Chyfrifiadura.

### CSBC

Deall y Byd

Pobl a chymunedau

Datblygiad Mathemategol



### Dyfarniad John Muir

**Darganfod**

**Archwilio**

**Gwarchod**

**Rhannu**



Rhowch gynnig ar y gweithgareddau canlynol os ydych yn gweithio tuag at unrhyw rai o'r bathodynau canlynol:

**Enfys** – Edrych a Dysgu

**Beavers** - Gweithgaredd Archwilio

**Cybiau** - Gweithgaredd Gwybodaeth Leol

**Guides** - Diwylliant

**Sgowtiaid** - Gweithgaredd Treftadaeth, Gweithgaredd Fy Ffydd I

## Cewri Lleol

Mae'r gweithgaredd yma'n ddilyniant da i'r gweithgareddau 'Oes Dda' ac yn gyfle i blant ymchwilio'n fanylach i'r bobl yn eu cymuned. Yn benodol, y bobl a adawodd eu marc ar hanes – ffigyrau cyhoeddus, arwyr ac arwresau lleol.

### Canlyniadau Dysgu

Bydd y plant yn gwneud y canlynol:

- Defnyddio ffynonellau amrywiol o dystiolaeth i ofyn ac ateb cwestiynau am bobl a llefydd

### Adnoddau

Deunyddiau ysgrifennu e.e. papur, clipfwrdd, pensiliau, a camera.

Deunyddiau ymchwil e.e. y rhyngwrwyd, llyfrau gwybodaeth, cofnodion plwyf, ffurflenni'r cyfrifiad.

### Paratoi

Bydd rhaid cynllunio'r gweithgaredd yma'n ofalus iawn a chasglu data perthnasol i unigolyn sydd wedi'i gladdu yn y safle claddu. Bydd rhaid i chi ymweld â'r safle er mwyn dewis pa unigolion rydych am ymchwilio iddynt. Bydd y plant yn chwilio am bobl enwog neu arwyr ac arwresau pwysig yn lleol. Efallai person a fu'n rhan o ddigwyddiad hanesyddol pwysig neu drasiedi fawr. Gall fod yn ddefnyddiol gofyn i reolwr y safle claddu gynghori a helpu gyda'r gweithgaredd yma.

1. Gall cofgolofnau rhyfel a beddau rhyfel fod yn fan cychwyn da i'r gweithgaredd yma, gan roi cyfle i'r plant ymchwilio i straeon personol y milwyr sydd wedi'u rhestru ar y cofgolofnau ac a fu'n brwydro yn y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd.

Cewch ragor o wybodaeth am yr unigolion drwy ymchwilio iddynt ar wefan y Commonwealth War Graves Commission [www.cwgc.org](http://www.cwgc.org)

2. Meddylwch am – Gwleidyddion, cynghorwyr, diwygwyr, gwyddonwyr, ficeriaid, awduron, arlunwyr, beirdd, milwyr, dyngarwyr, perchnogion ffatrioedd, personoliaethau chwaraeon, dyfeiswyr, cerddorion, actorion, pobl fusnes ac ati.

### Cwestiwn Allweddol

**Beth sy'n gwneud arwr neu arwres? Pwy yw eich arwr/arwres chi?**

### Cyflwyniad

Trafod syniadau – beth sy'n gwneud arwr/arwres? Ydych chi'n gallu enwi un? Pwy yw eich arwr/arwres? Casglwch eiriau ac ymadroddion i ddisgrifio arwr neu arwres e.e.

dewr, creadigol, arloesol, hael, clyfar a chryf.

Mae pob person sydd wedi'u claddu yn y safle claddu wedi gwneud pethau pwysig gyda'u bywydau. Efallai fod rhai pobl wedi cyflawni pethau bychain sy'n effeithio arnyh nhw eu hunain a'u teuluoedd a neb arall. Efallai fod pobl eraill wedi gwneud cyfraniadau mwy, gan effeithio ar nifer fwy o bobl.

### Syniadau ar gyfer Gweithgareddau

Ymchwiliwch i fywyd person sydd wedi'i gladdu yn y safle claddu. Beth oedd ei gyfraniadau at y gymuned. Oes gennych chi rywun enwog yn eich safle claddu? Oes gennych chi arwr lleol wedi'i gladdu yno? Ceisiwch ddarganfod lle'r oedd yn byw, sut roedd yn ennill ei fywoliaeth, a chasglu mwy o fanylion am ei deulu. Oes aelodau o'i deulu'n fyw o hyd ac yn fodlon siarad gyda'r plant?

### Lle mae Dechrau

Yn aml iawn, wrth chwilio am berson amlwg mewn safle claddu, rydych yn dechrau gyda'r cerrig beddau amlwg neu'r cofgolofnau eraill amlwg. Darllenwch y wybodaeth a'r arysgrifau ar y cerrig beddau neu'r cofgolofnau am gliwiau. Casglwch enwau a dyddiadau a gyda'r wybodaeth honno, defnyddiwch y rhyngwrwyd i ddarganfod eu straeon.

Chwiliwch drwy gofnodion claddu, cofnodion plwyf, hanesion lleol, ffurflenni cyfrifiad, erthyglau papurau newydd sydd wedi'u harchifo ac ysgrifau coffa i olrhain straeon yr unigolion.

### Sesiwn i Bawb

Pam maent yn arwr/arwres?

### Yn Ôl yn yr Ysgol

#### Ysgrifennu Cyffrous

- Ysgrifennwch adroddiad papur newydd am ddigwyddiad sy'n cynnwys eich arwr/arwres.
- Ysgrifennwch lythyr at eich arwr/arwres.
- Ysgrifennwch fywgraffiad eich arwr/arwres, tynnwch lun ohono a gwnewch Oriel Anfarwolion.

### CSBC

- Rhannwch straeon am arwr/arwresau e.e. The Paper Bag Princess gan Robert N Munsch, Isabel's Noisy Tummy gan David McKee neu Cannonball Simp gan John Burningham.
- Chwiliwch am arwr ac arwresau go iawn a'r gwaith maent yn ei wneud e.e. yr heddlu, ymladdwyr tân, meddygon, nyrsys, mamau, tadau neu ofalwyr.